Adroddiad

Cyngor

Rhan 1

Dyddiad: Mawrth 2022

Pwnc **Strategaeth y Gymraeg 2022-2027**

Diben Cymeradwyo Strategaeth y Gymraeg 5 mlynedd ddrafft ar gyfer Casnewydd fel sy'n ofynnol gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Awdur Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig
Swyddog Polisi'r Gymraeg

Ward Pob un

Crynodeb Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cynhyrchu, a chyhoeddi ar ein gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi cynigion i hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg yn ehangach yn yr ardal.

Gwyddom mai un o'r prif ffyrdd y gallwn fesur cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Casnewydd yw drwy fonitro nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae ein targedau 5 mlynedd fel sy'n ofynnol gan ein Safonau'r Gymraeg yn adlewyrchu'r mesurau gwirioneddol hynny a nodir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'r strategaeth ddrafft ar gyfer y cyfnod 2022-2027 i'w gweld yn Atodiad 1 yn y Gymraeg a Saesneg.

Cynnig **Cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft atodedig cyn ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth.**

Camau gweithredu gan Cyfarwyddwr, Trawsnewid a'r Ganolfan Gorfforaethol

Amserlen Yn syth

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ôl ymgynghori â'r:

- Aelod Cabinet Asedau ac Adnoddau
- Hyrwyddwr Aelodau – Y Gymraeg
- Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau
- Grŵp Gweithredu swyddog y Gymraeg
- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg
- Fforwm Iaith
- Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu
- Y Cyhoedd
- Cabinet

Cefndir

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg [Rhif 1] 2015).

Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Casnewydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Casnewydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'. Mae Safon 145 (isod) yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

"Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill)

(a) darged (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a

(b) datganiad sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi strategaeth (neu o gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig)

Cytunwyd ar ein strategaeth flaenorol yn 2017 ar gyfer y cyfnod 2017-2022. Mae'r Strategaeth ddrafft ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cynnwys y ddau darged i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, a datganiad sy'n nodi sut y byddwn yn gwneud hyn.

Targed 5 mlynedd arfaethedig ar gyfer cynyddu neu gynnal canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd

Gwyddom mai un o'r prif ffyrdd y gallwn fesur cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Casnewydd yw drwy fonitro nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae ein targedau 5 mlynedd fel sy'n ofynnol gan ein Safonau'r Gymraeg yn adlewyrchu'r mesurau gwirioneddol hynny a nodir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r Cabinet wedi cytuno ar CSCA Casnewydd a bydd yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru i'w gytuno erbyn mis Medi 2022.

Mae'r CSCA yn nodi targedau i gynyddu nifer y plant mewn addysg Gymraeg. Mae'n ofynnol i'r cyngor gynyddu nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg 6% dros y 10 mlynedd nesaf (erbyn 2032). Bydd hyn yn gynnydd o 101 i 221 o ddisgyblion.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r targedau CSCA 5 a 10 mlynedd a fydd yn galluogi i'r uchelgais hwn gael ei gyflawni, ar draws 7 maes deilliant:

Deilliant 1: Mwy o blant meithrin yn dysgu trwy'r Gymraeg
Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn yn dysgu trwy'r Gymraeg
Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr yn gwella'u sgiliau Cymraeg ar ôl symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer arholiadau trwy'r Gymraeg
Deilliant 5: Mwy o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i ystafell ddosbarth yr ysgol
Deilliant 6: Cynnydd mewn dosbarthiadau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n dysgu trwy'r Gymraeg
Deilliant 7: Mwy o athrawon a staff yn gallu addysgu Cymraeg a thrwy'r Gymraeg

Y Strategaeth

Mae'r Strategaeth nid yn unig yn ymwneud â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, ond hefyd am wneud y Gymraeg yn gynhwysol ac i ysbrydoli, gan gefnogi dysgwyr Cymraeg, a

chynyddu gwelededdd y Gymraeg ar draws y ddinas. Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
Mae'r Strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth ehangach y cyngor ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd – 'See, Hear, Learn, Use, Love' ac mae'n cynnwys camau gweithredu ar wahân i waith sy'n canolbwyntio ar Addysg i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg ledled Casnewydd. Mae'r camau hyn wedi'u trefnu'n 3 thema strategol – Cymunedau a Diwylliant, Addysg, a Chyflogaeth a Sgiliau. Mae cynllun gweithredu yn nodi ymrwymiadau allweddol ar draws y themâu hyn.

Mae'r Strategaeth wedi'i llywio gan swyddogion ein Grŵp Gweithredu'r Gymraeg, ein gwaith parhaus gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori ar y safbwyntiau y mae dinasyddion yng Nghasnewydd yn eu coleddu ynghylch y Gymraeg – yn ogystal â gwaith ein gwasanaeth Addysg a'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd, y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Ionawr. Roedd y Strategaeth ddrafft ar gael i'r cyhoedd roi sylwadau arni ar wefan y cyngor rhwng y 24 Ionawr a 5 Chwefror.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r strwythurau llywodraethiant presennol i fonitro cynnydd ein Strategaeth wrth i ni geisio ymgorffori'r Gymraeg ar draws gweithgareddau busnes fel arfer. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gamau gweithredu allweddol yn ein Fforwm Cymraeg mewn Addysg a'n Grŵp Gweithredu'r Gymraeg mewnol. Bydd Fforwm y Gymraeg hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod partneriaid yn cymryd rhan ac yn gweithio tuag at ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd, a'n Bwrdd Sgiliau Cywir wrth ymgorffori ein gwaith ynghlwm â chyflogwyr a sgiliau.

Bydd adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn ein themâu allweddol yn cael eu hymgorffori yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg a gyhoeddir erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg.

Crynodeb Ariannol (Cyfalaf a Refeniw)

Nid oes unrhyw gostau staffio ychwanegol yn gysylltiedig â Strategaeth y Gymraeg, a bydd camau'n cael eu cyflawni gan ddefnyddio adnoddau a chyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Risgiau

Mae'n bwysig nodi a rheoli unrhyw brosiect neu gynllun sy'n agored i risg a chael rheolaethau ar waith i ddelio â'r risgiau hynny.

Teitl / Disgrifiad y Risg	**Sgôr Effaith y Risg - os yw'r risg yn digwydd* (U/C/I)**	**Tebygolrwydd y Risg o gael ei wireddu (U/C/I)**	**Cam(au) Lliniaru Risg** Beth mae'r Cyngor yn ei wneud neu beth mae wedi'i wneud i osgoi'r risg neu leihau ei effaith.	**Perchennog y Risg** Swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ddelio â'r risg?
Nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran cyhoeddi'r strategaeth 5 mlynedd.	U	I	Mae'r adroddiad hwn yn cynnig strategaeth ddrafft	Cyfarwyddwr, Trawsnewid a'r Ganolfan Gorfforaethol
Nad yw'r cynigion yn y strategaeth yn cael eu cyflawni.	C	I	Trefnir monitro drwy'r strwythurau llywodraethiant presennol	Cyfarwyddwr, Trawsnewid a'r Ganolfan Gorfforaethol

* Gan ystyried mesurau lliniaru arfaethedig

Cysylltiadau â Pholisïau a Blaenoriaethau'r Cyngor

Yn ogystal â bodloni ein gofynion o dan Safonau'r Gymraeg, mae'r Strategaeth hon yn cyd-fynd yn fwriadol ag ystod o strategaethau ac amcanion cenedlaethol a lleol gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Nod Llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'
- Mwy na Geiriau – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Dinas Casnewydd
- Strategaeth Ddigidol Cyngor Dinas Casnewydd
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Dinas Casnewydd
- Cynllun Technoleg Iaith Cymru Llywodraeth Cymru

Opsiynau sydd ar gael ac a ystyriwyd

Y dewisiadau sydd ar gael yw:

1. Cytuno ar y drafft
2. Peidio â chytuno ar y drafft

Opsiwn a Ffefrir a Pham

Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir er mwyn bodloni ein gofynion statudol mewn modd amserol.

Sylwadau'r Prif Swyddog Ariannol

Ni fydd cymeradwyo Strategaeth y Gymraeg yn cael unrhyw effaith ariannol andwyol, bydd yr holl gostau cysylltiedig yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

Sylwadau'r Swyddog Monitro

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu, a chyhoeddi, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi ein cynigion i hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg yn ehangach yn yr ardal. Rhaid i'r strategaeth gynnwys targedau ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a rhaid adolygu'r gwaith o gyflawni'r strategaeth. Mae hyn hefyd yn gyson â nodau llesiant ac amcanion cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r strategaeth arfaethedig yn bodloni gofynion y Safonau ac yn canolbwyntio, yn benodol, ar addysg Gymraeg, gan adeiladu ar egwyddorion presennol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Sylwadau'r Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Mae'r datblygiad hwn ar Strategaeth y Gymraeg ar gyfer y Ddinas yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r amcanion drafft ar gyfer y Cabinet ac yn adeiladu ar y gwaith presennol i ddatblygu'r Gymraeg fel y gwelir yn yr adroddiadau blynyddol. Mae datblygu'r Gymraeg hefyd yn rhan o'n blaenoriaethau cydraddoldeb a chorfforaethol, ac mae'n elfen allweddol o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn nodi pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r amcanion.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys camau i gydnabod a chynyddu sgiliau'r Gymraeg o fewn gweithlu'r Cyngor ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad TGAU Cymraeg i ymgeiswyr Prentisiaethau, defnyddio fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ALTE a hysbysebion swyddi dwyieithog

Pwyllgorau Craffu

Trafodwyd y Strategaeth ddrafft yn y Pwyllgor Craffu a Rheoli Trosolwg ar 21 Ionawr 2022. Mae'r sylwadau a'r ymatebion isod:

Hoffai'r Pwyllgor gael eglurhad ar ffigurau'r rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg, yn hyderus eu Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg gan nad ydynt yn cyfateb yn union â nifer y rhai y dywedir iddynt gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodwyd yr adborth ar y rhan yma o'r adroddiad (canlyniadau'r ymgynghoriad). Roedd y ffigurau a nodwyd yn ymwneud â 2 gwestiwn gwahanol a ofynnwyd yn yr arolwg felly roeddent yn anghydweddol. Gwnaed gwelliannau i roi eglurder ynghylch hyn.

Dwedodd y Pwyllgor y byddent wedi hoffi gweld rhannau o'r adroddiad – penawdau a chyflwyniadau efallai – wedi'u hysgrifennu'n ddwyieithog gan y byddai'n cynrychioli cynnwys yr adroddiad yn well a nodau'r Cyngor gyda'r Gymraeg.

Nodwyd yr adborth gan y Pwyllgor – bydd y Strategaeth lawn yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg y cyngor.

Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb

Crynodeb o'r effaith – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Cynhaliwyd Asesiad Llawn o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh) ar Strategaeth y Gymraeg ac mae wedi'i atodi yn Atodiad 2. Mae'r themâu a'r camau gweithredu allweddol sy'n sail iddynt yn cydbwyso anghenion tymor byr â darparu atebion tymor canolig i hirdymor dros yr amserlen o 5 mlynedd, ac fe'u datblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys cymunedau ledled Casnewydd.

Mae'r Strategaeth yn nodi heriau allweddol i'r Gymraeg yng Nghasnewydd, er enghraifft, bylchau mewn cyflogaeth a sgiliau, cyfraddau trosi isel ar gyfer dysgwyr y Gymraeg sy'n symud o amgylcheddau cyn-ysgol i amgylcheddau ysgolion cynradd, a'r diffyg gweledded canfyddedig ynghylch yr iaith ar draws y ddinas. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd gwaith yn datblygu i atal y problemau hyn rhag gwaethygu, a'r adnoddau/gwaith partneriaeth sy'n galluogi i'r gwaith hwn ddigwydd.

Mae'r Strategaeth yn dibynnu ar waith partneriaeth effeithiol ac yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru lewyrchus, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol a Chymru â diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu.

Crynodeb o'r effaith – Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r AEDCh a gynhaliwyd ar Strategaeth y Gymraeg yn nodi effeithiau cadarnhaol i bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig o ran oedran, hil ac anabledd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Nodir effeithiau cadarnhaol penodol ar gyfer plant cyn oed ysgol ac oedran ysgol o ganlyniad i thema Addysg y Strategaeth, ac ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig sydd wedi eu blaenoriaethu ar gyfer ymgysylltiad yn y Strategaeth.

Crynodeb o'r effaith – Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Nodwyd bod y Strategaeth yn cefnogi lleihau anghydraddoldebau a allai godi o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol ym meysydd gwaith, cyfranogiad ac addysg. Mae'r meysydd hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r themâu allweddol yn y Strategaeth – Cyflogaeth a Sgiliau, Cymunedau a Diwylliant ac Addysg.

Mae'r Strategaeth yn nodi ymrwymiad i estyn allan at gymunedau nad ydynt efallai'n draddodiadol yn ymgysylltu â'r Gymraeg, gan gynnwys cymunedau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr, a'r cymunedau hynny ym Mhilgwenlli, un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd. Bydd yr ymrwymiad hwn yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn hygyrch i bawb, a chynigir cyfle i bawb wneud y gorau o'r manteision cymdeithasol, economaidd ac addysgol y gall yr iaith eu cynnig.

Crynodeb o'r effaith – Y Gymraeg

Gan mai Strategaeth y Gymraeg yw hon, nodwyd amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar gyfer y Gymraeg:

- Cynyddu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws holl gymunedau amrywiol Casnewydd, gan sicrhau ei bod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb
- Cynyddu gweledegd y Gymraeg ledled Casnewydd mewn lleoliadau cymunedol
- Annog gweithio mewn partneriaeth a chysondeb rhwng rhanddeiliaid o ran y Gymraeg yn y gweithle a phosibilrwydd o gynyddu cyfleoedd economaidd
- Sicrhau bod cymunedau yng Nghasnewydd yn ymwybodol o ddiwylliant a hanes Casnewydd o ran y Gymraeg a'i phwysigrwydd mewn bywyd modern; datblygu ymdeimlad o le a pherchnogaeth drosti,
- Cynyddu gwaith partneriaeth gyda rhanddeiliaid i ddatblygu dysgu, adnoddau a chyfleoedd a rennir.
- Ysbrydoli plant a disgyblion i ddysgu a defnyddio'r iaith yn yr ysgol a'r tu allan iddi, yn ogystal â chefnogi neu annog rhieni/darparwyr gofal i fuddsoddi yn yr iaith

Ymgynghoriad

Mae'r Strategaeth hon wedi'i llywio gan y bobl sy'n byw yng Nghasnewydd, rhanddeiliaid y Gymraeg ac adborth gan bartneriaid mewnol ac allanol. Yn ystod 2021 lansiwyd nifer o arolygon cymunedol gennym i ddarganfod mwy am yr hyn yr oedd pobl yng Nghasnewydd yn ei feddwl am y Gymraeg, i lywio ffocws ein themâu strategol. Derbyniwyd tua 600 o ymatebion a dynnodd sylw at feysydd allweddol y dylai'r strategaeth fynd i'r afael â hwy, gan gynnwys:

- Amharodrwydd i ddysgu Cymraeg, neu weld gwerth dysgu'r Gymraeg
- Gweledegd canfyddedig isel o'r Gymraeg ar draws y ddinas
- Pryder bod pobl yn cael eu 'gorfodi' i ymgysylltu â'r Gymraeg
- Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd, gweithgareddau a grwpiau Cymraeg ar draws y ddinas
- Diffyg hyder wrth ddefnyddio sgiliau Cymraeg

Ceir crynodeb llawn o ymatebion yr arolwg yn y Strategaeth a'r AEDCh.

Roedd y Strategaeth hefyd ar gael i'r cyhoedd gynnig sylwadau arni rhwng 24 Ionawr a 4 Chwefror. Derbyniwyd nifer o sylwadau ac fe'u hystyried wrth gwblhau'r Strategaeth i'w chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor.

Papurau Cefndir

Safonau'r Gymraeg Casnewydd
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft Casnewydd
Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg

Dyddiad: 18 Chwefror 2022